

Pasbortau Planhigion

Taflen ffeithiau

Mae pasbort planhigion y DU (PPs) yn labeli swyddogol sy'n cyflawni dwy brif swyddogaeth

Olrheiniadwyedd – Er mwyn sicrhau bod modd olrhain unrhyw bryderon

clefydau/plâu/ansawdd gydag unrhyw nwyddau planhigion yn ôl i'r ffynhonnell

Sicrwydd – Yn rhoi sicrwydd i'r prynwr bod y nwyddau planhigion wedi'u tyfu a'u trin i fodloni safonau iechyd penodol Prydain Fawr (GB)

Rhaid storio gwybodaeth PP am o leiaf 3 blynedd (hyd yn oed os caiff ei disodli) ac nid yw PPs y DU yn ddilys y tu allan i'r DU tra nad yw PPs yr UE yn ddilys yn y DU ers 2021.



Pam pasbort?

Gan fod pob planhigyn i'w blannu bellach â phasbort, gellir mabwysiadu dull rhagweithiol o ymdrin ag iechyd planhigion a bygythiadau plâu i'r diwydiant a'r amgylchedd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Mae PPs yn sicrhau bod planhigion a chynhyrchion planhigion yn cael eu holrhain trwy'r gadwyn gyflenwi gyfan ac yn datgan cydymffurfiaeth â gofynion iechyd planhigion fel bod yn rhydd rhag plâu, sy'n hanfodol i gynnal bioddigolwch.

Ydych chi'n Weithredwr Proffesiynol?

Er mwyn gallu rhoi PPs, rhaid i chi ddarganfod yn gyntaf a ydych chi'n Weithredwr Proffesiynol (PO). Os ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau hyn, mae'n debygol eich bod yn weithredwr proffesiynol at ddibenion rheoliadau Iechyd Planhigion (PHR) a rhaid i chi gofrestru fel Gweithredwr Proffesiynol [yma](#).

- Mae gennych chi wefan lle rydych chi'n masnachu planhigion;
- Mae gennych chi restr brisiau;
- Rydych chi'n cael eich talu am wasanaeth rydych chi'n ei ddarparu;
- Rydych chi'n masnachu planhigion neu gynhyrchion planhigion yn rheolaidd gyda'r bwriad o wneud elw;
- Mae gennych chi gyfrif cyfryngau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar fasnachu planhigion neu gynhyrchion planhigion;
- Rydych chi'n cyflenwi gweithredwyr proffesiynol, e.e. garddwyr proffesiynol, tirlunwyr neu fridwyr;
- Rydych chi wedi eich sefydlu i gwblhau contractau o bell yn rheolaidd, e.e. rydych chi'n hysbysebu sut rydych chi'n cymryd taliadau.

A oes angen i mi roi Pasbort Planhigion?

Os ydych chi'n gwerthu planhigion i fusnesau eraill neu'n gweithredu ar-lein, **BYDD** angen i chi roi Pasbort Planhigion gyda'ch cynhyrchion. Os ydych chi'n gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid e.e. fel Canolfan Arddio, yna **NID** yw'n ofynnol i chi roi Pasbortau Planhigion, er y bydd angen i chi gofrestru fel Gweithredwr Proffesiynol o hyd.

Bydd angen i chi hefyd roi eich PPs newydd eich hun gyda gwlad tarddiad newydd (GB) os ydych chi'n tyfu planhigion sydd eisoes â PP neu PC mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- wedi'u potio, wedi'u hail-botio, wedi'u himpio neu wedi'u gwreiddio
- mewn twf gweithredol dan warchodaeth am o leiaf 2 wythnos



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



- mewn twf gweithredol y tu allan am o leiaf 4 wythnos
- yn destun pla gan organeb cwarantîn, e.e. mewn maes sy'n destun hysbysiad statudol
- I gofrestru i roi Pasbortau Planhigion, dilynwch y ddolen hon
<https://www.gov.uk/government/publications/plant-passports-application>

Beth mae'n ei gynnwys?

Mae PPs y DU yn cynnwys y canlynol, ond gellir dod o hyd i restr lawn [yma](#)




Planhigion i'w plannu

(gan gynnwys toriadau, planhigion dŵr, tyweirch a pherlysiâu mewn potiau)



Rhai hadau

(hadau bwyd yn bennaf; mae llawer o hadau wedi'u heithrio)



Tatws Hadyd



Pren a chynhyrchion o rywogaethau allweddol

(gan gynnwys toriadau, boncyffion, sglodion coed, blawd llif)



Rhisgl Ynysig


(yn unig neu wedi'i gymysgu o gonwydd, castanwydd pêr, cnau Ffrengig a chnau adeiniog)

Os ydych chi'n gweithio gyda **ffrwythau, blodau wedi'u torri, tatws bwyta a hadau eraill sydd wedi'u heithrio**, yn y DU, ni fydd angen PP arnoch, er efallai y bydd angen i chi gofrestru fel Gweithredwr Proffesiynol o hyd a bydd angen 'Tystysgrif Ffytioiechydol' (PC) arnoch ar gyfer allforio y tu allan i Brydain Fawr. I gael cadarnhad pellach o bryd y mae angen i chi ddefnyddio PPs y DU, rhowch gynnig ar y siartiau llif penderfyniadau defnyddiol [yma](#)

Mae PPs yn cael eu neilltuo i lwythi o gynhyrchion planhigion yn hytrach na phlanhigion unigol.

Gofynion Pasbort Planhigion yn y DU

- Os ydych yn weithredwr, yn prynu gan weithredwr arall sydd eisoes wedi rhoi PP y DU, cyn belled nad ydych yn rhannu'r llwyth, nid oes angen PP newydd ar y rhain, gan eu bod yn parhau i fod yn olrheiniadwy. Os byddwch chi'n gwahanu, bydd angen i chi awdurdodi PPs newydd yn y DU ar gyfer llwythi a chadw cofnodion o'r hen PPs.
- Wrth werthu o bell, ar-lein/trwy'r post ac ati, mae'n ofynnol i chi ddarparu neu roi PPs fel rhan o'r gwerthiant. Mae angen cysylltu hyn â'r uned leiaf y gellir ei holrhain Mae llawer o fanwerthwyr hefyd yn rhoi'r rhif PP ar eu hanfonebau, er bod hyn yn ddewisol. Gall busnesau ar-lein llai ddefnyddio PP gwreiddiol y DU o'r ffynhonnell os nad yw'r statws ffytioiechydol wedi newid. Fel arall, mae'n rhaid iddynt gofrestru i roi un newydd.
- Os ydych chi'n fusnes sydd â 2 neu fwy o fangre sy'n fwy na 10 milltir oddi wrth ei gilydd ac yn symud planhigion rhwng y



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



mangreoedd hyn (e.e. rhwng meithrinfa a chanolfan arddio), bydd angen i chi roi PP ar gyfer planhigion/llwythi ar gyfer eu holrhain.

- Mae yna PPs PFA arbennig ar gyfer planhigion sy'n cynnal plâu PFA. Ar gyfer Prydain Fawr mae hyn yn ymwneud â Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw ac ardaloedd o'r Alban mewn perthynas â phlâu penodol o'r ffynidwydden, y llarwydden, y sbriwsen, y binwydden a'r ffinidwydden Douglas.
- Mae angen PPs ar blanhigion sy'n cael eu gwerthu mewn ocsiwn oni bai eu bod wedi'u marcio fel 'i'w manwerthu yn unig', tra bod planhigion mewn sioeau angen PPs ar gyfer pob agwedd ac eithrio'r arddangoswr yn ei symud i'r digwyddiad
- Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach yma <https://www.gov.uk/guidance/issuing-plant-passports-to-trade-plants-in-great-britain>

Gofynion Pasbort Planhigion wrth fewnforio planhigion

Mae pob planhigion wedi'i fewnforio yn dod gyda 'Thystysgrif Ffotoiechydol' (PC) a gafodd ei rhoi gan y wlad a wnaeth ei anfon. Bydd angen i chi wedyn roi PP os ydych chi eisiau:

- Symud >10 milltir
- Gwerthu i ddefnyddwyr terfynol ar-lein neu o bell
- gwerthu i weithredwr arall
- mae'r planhigion wedi cael eu tyfu ymlaen

Os ydych chi'n bwriadu allforio allan o'r DU, cysylltwch ag APHA ar planthealth.info@apha.gov.uk am arweiniad pellach.

Enghraifft o Basbort Planhigion derbyniol:

Pasbort Planhigion y DU	- Mae'r testun hwn yn ofynnol ac mae'n wahanol mewn Pasbortau Planhigion Ardaloedd Di-bla
A [Enw Botanegol]	- Math a rhywogaethau llawn oni bai nad yw'r rhywogaeth yn hysbys
B [Rhif Cofrestru]	- Rhif adnabod gweithredwr unigol - Rhif Edemero.
C [Cod Orlhain]	- Rhif cyfresol/wythnos/swp/anfoneb i'w olrhain yn ôl i'r uned y cafodd ei rhoi ynddi
D [Gwlad Tarddiad]	- Cod 2 lythyren y wlad (E.e. GB ar gyfer Prydain Fawr)
E [GB(NI)]	- <i>Os yn disodli PPs yr UE o Ogledd Iwerddon ar gyfer QNIGs (Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon) penodol</i>

Noder:

- Mae angen Adran E dim ond os yw planhigion yn cael eu mewnforio o Ogledd Iwerddon.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



- Rhaid tyfu rhai planhigion risg cynnal allweddol ymlaen am o leiaf blwyddyn, cyn y gall y gweithredwr ddisodli'r tarddiad mewn PP yn y DU i fod yn benodol i Brydain Fawr, yn rhan D o'r PP.

Costau i weithredwyr a thyfwyr (Mae'r holl brisiau'n gywir ar adeg ysgrifennu ac yn gallu newid)

1. Awdurdodiad:

[Mae cofrestru trwy'r system eDomero](#) yn rhad ac am ddim, tra bydd cyflwyno'r [ffurflen APHA AppAuth](#) yn costio **£20.66**

2. Mewnforio:

- [Ffioedd mewnforio o'r tu allan i'r DU](#) - ffi archwilio unffurf o **£32.15 + £1.57** am wiriad hunaniaeth
- Os nad yw mewnforio'n uniongyrchol yn ymarferol, neu os yw'n cael ei ystyried yn rhy gymhleth, gall tyfwyr ddefnyddio **cyfanwerthwyr dibynadwy, broceriaid planhigion, cymdeithasau masnach, neu farchnadoedd planhigion ar-lein wedi'u dilysu**. Gall cronfeydd data APHA a meithrinfeydd ag enw da helpu i nodi ffynonellau dibynadwy.

3. Allforio ac Ail-allforio:

- Mae [ceisiadau am wasanaethau allforio planhigion](#) yn gofyn am ffioedd arolygu: **£127.60** am y 30 munud cyntaf a **£63.80** am bob 15 munud ychwanegol. Mae archwiliadau'n cwmpasu gweithgareddau ar y safle, ac mae rhai planhigion angen archwiliadau blynyddol neu dymhorol.

4. Tystysgrifau Ffytoiechydol:

- Mae tystysgrif ffytoiechydol yn costio **£25.52** y llwyth, gyda diwygiadau yn costio **£15.76**. Mae profion labordy yn costio **£33.56** y sampl. Mae ffurflenni ar-lein yn rhad ac am ddim; codir ffi brosesu o **£15.76** am ffurflenni papur.
- Mae cyfraddau gostyngol o 50% ar gael i allforwyr sy'n bodloni meini prawf penodol (e.e. nwyddau sydd wedi'u heithrio rhag TAW, allforion o dan £5,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Os ydych chi'n allforio, yna rhaid cyflwyno'r Ffurflen Gyfradd Gonsesiynol cyn y cais allforio).

5. Masnachu Tymhorol: Gall tyfwyr sy'n masnachu'n dymhorol oedi cyfranogiad gwasanaeth allforio i osgoi archwiliadau y tu allan i'r prif dymhorau tyfu.

Gwybodaeth Allweddol

- Mae Pasbortau Planhigion y DU yn olrhain planhigion sy'n cael eu symud y tu mewn i'r DU ac yn sicrhau ansawdd
- Bydd angen i unrhyw unigolyn sy'n gwneud elw sy'n ymwneud â chynhyrchion planhigion gael ei awdurdodi fel Gweithredwr Proffesiynol.
- Fel Gweithredwr Proffesiynol os ydych chi'n gwerthu i fusnesau eraill neu ar-lein, yna bydd gofyn i chi gofrestru a roi Pasbortau Planhigion
- Gellir dod o hyd i restrau llawn o gynhyrchion planhigion sy'n gysylltiedig â'r rhai sydd wedi'u heithrio ar-lein
- Mae pasbortau yn helpu i gadw diwydiannau ac amgylcheddau'n ddiogel rhag plâu a chlefydau costus
- Bydd cynhyrchion sydd eisoes â phasbortau planhigion angen rhai newydd os ydynt yn cael eu tyfu ymlaen neu wedi'u gwahanu oddi wrth eu sypiau llwyth gwreiddiol
- Mae yna wahanol gostau sy'n gysylltiedig ag arolygu ac archwilio lle mae planhigion yn cael eu mewnforio a'u hallforio

Adnoddau

Mae dolenni i lawer o adnoddau allweddol drwy gydol y ddogfen hon. I gael rhagor o



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



wybodaeth, e-bostiwch planthealth.info@apha.gov.uk; gweler hefyd yr [e-ddysgu](#) ar-lein

Porth Iechyd Planhigion <https://planthealthportal.defra.gov.uk/>

Cwestiynau Cyffredin am Basbortau Planhigion

<https://planthealthportal.defra.gov.uk/trade/plant-passports/plant-passport-faq/>

Tudalen we Llywodraeth y Du ar basbortau planhigion

<https://www.gov.uk/environment/producing-distributing-food-crops-horticulture>

Canllawiau ar fod yn Weithredwr Proffesiynol <https://planthealthportal.defra.gov.uk/plant-passports/am-i-a-professional-operator/>



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

GARDDWRIAETH
HORTICULTURE